# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mai 6ed 2025 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Alwyn Jones (cadeirydd), Dewi Pritchard, Eilir Rowlands, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Eifion Davies, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Bethan Thomas, Gwenda Evans a Rita Jones.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mawrth 4ydd 2025) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant.

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf – **Nodwyd.**

<u>v) Gohebiaeth</u>
<u>a) Cwmni Pum Plwy Penllyn</u>
i) Gwahoddiad i agoriad swyddogol Canolfan Bro Tegid,14/05/25.

<u>b) Fferm Wynt Foel Fach.</u>
i) Cais i fynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned. **Cytunwyd i'w gwahodd i gyfarfod mis Mehefin.**

<u>c) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Gwarddiad traffig dros dro – B4401 Llanfor, 26/06/25.
ii) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd – Mai 2025.

<u>ch) Amrywiol.</u>
i) Cyfoeth Naturiol Cymru – rhybudd o waith torri coed yn Llanfor.
ii) Dŵr Cymru – gwahoddiad i ymweld a'i safle yn Llyn Celyn i gael diweddariad ar y gwaith adeiladu gorlifan newydd. **Cafwyd adroddiad gan Alwyn Jones o'r datblygiadau.**
iii) Llythyr gan unigolyn yn gwrthwynebu bwriad Angling Cymru i gynnal digwyddiad caiacio ar Lyn Tegid ym mis Medi. **Gan nad oedd y Cyngor wedi derbyn unrhyw fanylion swyddogol am y digwyddiad nid oedd yn bosib iddynt roi barn ar hyn o bryd**.
iv) BT – llythyr yn ein hysbysu o'i bwriad i cael gwared o'r ciosc ffôn ym mhentref Llandderfel.
**Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu hyn a gofynnwyd i'r clerc ymateb yn nôl ar ran y Cyngor.**
v) Parc Cenedlaethol – gwahoddiad i gyfarfod Zoom i rhoi diweddariad ar eu proses o ddiwygio eu cynlluniau strategol.

<u>v) Ceisiadau Cynllunio</u>
i) C25/0032/04/LL – Newid defnydd caffi i ddefnydd swyddfa. Ysgubor Isaf, Rhiwlas.
ii) C25/0273/04/LL - Codi 10 o gytiau bugail, gosod cynhwysydd dŵr budr a suddfan dŵr a seilwaith i wasanaethu'r cytiau bugail. Pale Hall Hotel, Llandderfel.

**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i gais Ysgubor Isaf.**
**Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i wrthwynebu cais Pale gan y byddai'r cynllun yn or-ddatblygu'r safle yn enwedig gan ei fod gerllaw i adeilad rhestredig unigryw.**

<u>vii) Materion Ariannol</u>
a) Derbyniadau – Praesept 2025/26 - £7500
b) Taliadau – **Cytunwyd i dalu –**
**i) AJG Community Schemes (yswiriant)**
**ii) Sion Jones (torri glaswellt y mynwentydd)**
c) Ceisiadau ariannol – Neuadd Bro Derfel (cyfraniad tuag at gostau cynnal a cadw'r toiledau & pwynt gwefru ceir y pentref), Eisteddfod Llangollen, Kids Cancer Charity. **Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i**

**gyfrannu £200 i Neuadd Bro Derfel ac i drafod y ddau gais arall gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

viii) Materion lleol.

a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH MEHEFIN 3YDD YN NEUADD SARNAU**